Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Parc Ninian

Stryd Virgil
Grangetown
CF11 8TF

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Parc Ninian

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Parc Ninian |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 584 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 440 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 78 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 43.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 3.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 73.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 07/05/2016 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/11/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 30/06/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Parc Ninian yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar ac amlddiwylliannol sy'n hyrwyddo gwerthoedd pwysig tegwch, parch a chynhwysiant. Mae'r pennaeth yn arwain gydag angerdd ac ymroddiad i gefnogi anghenion teuluoedd a'r gymuned ehangach, ac o ganlyniad, mae disgyblion a'u teuluoedd yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth ac yn derbyn gofal.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu a'u lles. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd yn effeithiol fel eu bod yn dod yn siaradwyr hyderus erbyn iddynt adael yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen, ysgrifennu a mathemategol yn briodol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg, er bod hyn yn aml ar lefel sylfaenol ac nid yw disgyblion yn adeiladu ar y medrau hyn yn raddol.

Mae ansawdd yr addysgu yn amrywio ar draws yr ysgol. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae lleiafrif o athrawon yn rhannu bwriadau dysgu clir sy'n cael eu deall gan ddisgyblion ac yn datblygu holi effeithiol i gefnogi ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion o'r medrau a'r wybodaeth y maent yn eu datblygu. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel, ac nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n herio ac yn adeiladu ar fedrau disgyblion yn raddol.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o dystiolaeth i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Maent yn cynllunio datblygiad proffesiynol addas i ddatblygu gwybodaeth a medrau pwnc staff. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso ansawdd yr addysgu a'i effaith ar ddysgu yn ddigon da. O ganlyniad, mae cynllunio gwelliant yn aml yn canolbwyntio ar weithgareddau i'w cwblhau ac nid yw'n mynd i'r afael â gwendidau mewn addysgu yn ddigon da.

Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda rhieni a'r gymuned ehangach i ddarparu gweithdai gwerthfawr sy'n helpu rhieni i ddatblygu dealltwriaeth o gwricwlwm yr ysgol a sut gallant gefnogi dysgu gartref. Mae arweinwyr yn creu partneriaethau effeithiol sy'n helpu cefnogi teuluoedd. Er enghraifft, maent yn trefnu gwasanaethau cyfieithu i helpu sicrhau bod gweithgareddau yn hygyrch ac yn diwallu anghenion poblogaeth amrywiol yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Gwella ansawdd yr addysgu a sicrhau bod gan bob un o'r staff ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni

A2. Cryfhau prosesau hunanwerthuso i ganolbwyntio mwy ar ansawdd yr addysgu a'i effaith ar ddysgu

A3. Gwella safonau yn y Gymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Parc Ninian yn lleoliad anogol a chynhwysol lle mae arweinwyr a staff yn mynd ati i hyrwyddo ymdeimlad cryf o gymuned. Maent yn dathlu'r amrywiaeth gyfoethog o ran cefndiroedd disgyblion ac yn croesawu manteision amgylchedd amlieithog. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'u bod yn cael cymorth da, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn mwynhau mynychu'r ysgol.

Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r heriau sy'n deillio o boblogaeth ysgol sy'n newid. Maent yn gweithio'n agos gydag athrawon a staff cymorth i gynllunio ymyriadau strwythuredig sy'n cefnogi cynnydd disgyblion ag ADY a SIY yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn elwa ar amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith sy'n darparu cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu medrau llafaredd. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar y medrau hyn trwy weithgareddau fel trafodaethau dosbarth a gwasanaethau ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau siarad a gwrando.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau darllen. Mae llawer o ddisgyblion iau yn dechrau defnyddio'u gwybodaeth ffonig i ddarllen geiriau syml yn annibynnol. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen â rhuglder a hyder cynyddol. Fodd bynnag, nid yw diwylliant darllen a brwdfrydedd disgyblion hŷn wedi'u datblygu cystal.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu hysgrifennu. Mae llawer o ddisgyblion iau yn defnyddio'u dealltwriaeth o seiniau llythrennau i sillafu ystod o eiriau cyffredin yn gywir. Ym Mlwyddyn 3, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau defnyddio geirfa ehangach ac yn ymestyn eu brawddegau. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n fwy estynedig ac at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys adroddiadau, storïau a chofiannau. Trwy waith testun, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau mathemategol. Mae llawer o ddisgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth dda o rif trwy ddefnyddio adnoddau ymarferol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ystod o strategaethau i ddatrys problemau rhif. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar lefel y maent yn abl i wneud, ac at ystod o ddibenion ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol addas.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddysgu am ystod o fathau o ffydd a diwylliannau. Mae’r ysgol yn cynnal perthnasoedd cryf â disgyblion, eu teuluoedd, ac aelodau allweddol o’r gymuned leol i gynnig profiadau dysgu uniongyrchol sy’n dathlu gwahanol draddodiadau a gwyliau. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o’u hunaniaeth eu hunain a hunaniaeth pobl eraill ac yn dangos parch tuag at gredoau pobl eraill.

Mae arweinwyr a staff yn gweithio gyda’i gilydd i ddarparu cwricwlwm sy’n adlewyrchu natur amlddiwylliannol yr ysgol a threftadaeth Gymreig. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd dyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, mae cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion adeiladu ar y medrau hyn yn raddol, ac o ganlyniad, mae medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn aros ar lefel sylfaenol.

Mae ansawdd yr addysgu yn amrywio ar draws yr ysgol. Pan mae’r addysgu’n effeithiol, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu difyr a phwrpasol sy’n adeiladu’n effeithiol ar fedrau presennol disgyblion ac yn cefnogi eu cynnydd yn dda. Maent yn defnyddio gwybodaeth asesu yn briodol i lywio cynllunio ac yn defnyddio holi effeithiol i ymestyn meddwl disgyblion a dyfnhau eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, mewn gwersi llai effeithiol, mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel, ac mae diffyg her ddigonol mewn tasgau, yn enwedig ar gyfer disgyblion mwy abl. Yn ychwanegol, mae ansawdd yr adborth yn anghyson, ac mewn rhai achosion, nid yw’n rhoi cymorth clir i ddisgyblion i ddeall sut i wella’u gwaith.

Mae arweinwyr wedi sefydlu cylch strwythuredig o weithgareddau monitro, y maent yn eu defnyddio’n briodol i werthuso cryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Maent yn nodi blaenoriaethau perthnasol ac yn alinio dysgu proffesiynol yn briodol ag anghenion staff. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gydweithio â gweithwyr proffesiynol o ysgolion eraill, sy’n helpu mireinio’r cwricwlwm ac yn ymestyn profiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro’n defnyddio gweithgareddau gwerthuso yn ddigon manwl gywir i nodi agweddau ar addysgu sydd angen eu gwella. Yn aml, mae adborth yn canolbwyntio gormod ar dasg ac nid yw’n canolbwyntio’n gyson ar sut i wella ansawdd yr addysgu na’i effaith ar gynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae rhai gwendidau’n parhau dros gyfnod, sy’n effeithio ar gynnydd lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae arweinwyr yn gweithio’n agos gyda’r swyddog ymgysylltu â theuluoedd i olrhain a monitro presenoldeb disgyblion yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o’u teuluoedd ac yn ymgysylltu’n dda â nhw i hyrwyddo pwysigrwydd mynychu’r ysgol yn rheolaidd. Mae’r ymdrechion hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol, yn enwedig ar gyfer disgyblion y bu eu presenoldeb yn wael yn y gorffennol. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae presenoldeb cyffredinol yn parhau i fod yn rhy isel.

### Ciplun: Cefnogi anghenion teuluoedd mewn cymuned ysgol amrywiol

Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda rhieni a'r gymuned ehangach i ddarparu profiadau dysgu pwrpasol sy'n meithrin perthnasoedd cryf ac ymddiriedus. Caiff y partneriaethau hyn eu hategu gan lefel uchel o barch ar y ddwy ochr, ac maent yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos cynhwysol a chefnogol yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithdai a digwyddiadau buddiol i gyfeirio teuluoedd at gymorth, yn ogystal â datblygu gwybodaeth rhieni am gwricwlwm yr ysgol, a'u dealltwriaeth ohono. Mae arweinwyr yn mynd ati i gydnabod a dathlu amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol yr ysgol, ac maent yn chwilio am gyfleoedd i ddarparu gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i sicrhau bod pob un o'r teuluoedd yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys ac yn gallu ymgysylltu â bywyd yr ysgol. O ganlyniad i'r cydweithio hwn, mae teuluoedd o ystod eang o gefndiroedd yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol ac yn chwarae rôl werthfawr yng nghymuned yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r corff llywodraethol wedi cryfhau ei rôl o ran cefnogi arweinwyr yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn ymgysylltu'n gadarnhaol â bywyd yr ysgol ac yn gweithio'n agos gydag arweinwyr i reoli'r gyllideb a mynd i'r afael â'r diffyg. Mae llywodraethwyr yn wybodus am flaenoriaethau cenedlaethol, fel diwygio ADY a datblygiadau'r cwricwlwm, ac yn deall sut mae'r ysgol yn ymateb i'r rhain. Mae llywodraethwyr yn dechrau cymryd rhan mewn gweithgareddau hunanwerthuso, ond megis dechrau y mae eu hymglymiad. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn eto o ansawdd yr addysgu a'i effaith ar gynnydd disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2025